# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gorffwys Wellfield**

**Cartref Gorffwys Wellfield**
**1 Wood Lane Penarlâg**
**Glannau Dyfrdwy**
**CH5 3JD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

23/6/2022

***Llywodraeth Cymru ©  Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:* psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gorffwys Wellfield

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Pearlcare (Wellfield) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Ionawr 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu’n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws, ac ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried gofal a chymorth, yr amgylchedd nac arweinyddiaeth a rheolaeth yn fanwl. Mae'r bobl yn fodlon ar y cymorth y maent yn ei dderbyn, mae'r gweithwyr gofal yn cael eu hyfforddi mewn meysydd sy'n briodol i'r gofal y maent yn ei roi, ac mae lefelau staffio'n ddigonol. Mae cynlluniau personol y bobl yn fanwl ac yn rhoi cyfarwyddiadau i'r staff ar sut i ddarparu gofal a chymorth i'r person. Adolygir cynlluniau personol mewn modd amserol. Mae goruchwyliaeth effeithiol o'r gwasanaeth ar waith a chymerir barn y bobl o ddifrif.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae cynlluniau personol y bobl yn fanwl, a chynhelir asesiadau cyn-derbyn cyn i'r person symud i Wellfield. Mae dogfennau a chyngor gweithwyr proffesiynol yn cael ei geisio hefyd lle bo'n briodol ac mae hyn hefyd yn amlwg yn ffeiliau'r bobl. Mae cynlluniau personol yn adlewyrchu'r wybodaeth a gasglwyd mewn dogfennau cyn-derbyn a dogfennau proffesiynol.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, niwed neu esgeulustod posibl. Cynhelir adolygiadau gyda'r person mewn modd amserol; maent yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn dogfennau proffesiynol yn y ffeil, ac yn adlewyrchiad cywir o'r hyn y mae'r person ei eisiau neu ei angen. Mae cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cael eu hyfforddi mewn meysydd sy'n briodol i'r gwaith y maent yn ei wneud, a bod system archwilio rheoli gynhwysfawr ar waith. Ymgynghorir â'r bobl am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn, a chyhoeddir y canfyddiadau yn unol â rheoliadau.

## Gofal a Chymorth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn addas i fodloni anghenion unigolion. Cwblheir asesiadau gan aelodau priodol o staff cyn i'r bobl dderbyn gwasanaeth ac mae'r asesiadau yn cynnwys gofynion deietegol. Rhennir yr wybodaeth hon â gweithwyr gofal cyn i bobl gael cymorth a chadarnhawyd hyn gan y gweithwyr gofal. Gwelsom fod gwybodaeth gan weithwyr iechyd proffesiynol yn cael ei cheisio a'i derbyn cyn i'r bobl symud i'r cartref. Mae sgyrsiau ffôn rhwng rheolwyr a gweithwyr proffesiynol hefyd yn cael eu cynnal cyn i rywun symud i Wellfield.

Mae cynlluniau personol y bobl yn gywir, yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion y bobl. Mae cynlluniau personol yn adlewyrchu gofynion deietegol y person ac yn rhoi cyfarwyddiadau manwl i'r staff ar sut i gefnogi'r person gyda'i anghenion deietegol. Gwelsom fod y darparwr yn cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd ynghylch deiet y bobl. Mae'r sgyrsiau hyn a'r wybodaeth a ddarperir gan weithwyr proffesiynol am ddeiet y bobl yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun personol y person. Gwelsom fod asesiadau risg unigol, sy'n gywir, yn fanwl ac yn rhoi cyfarwyddiadau i'r staff, wedi eu cynnwys yn ffeiliau gofal y bobl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom hefyd gofnodion cegin sy'n adlewyrchu anghenion unigolion a thystiolaeth bod gofynion deietegol y bobl yn cael eu dilyn.

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth personol. Mae'r bobl yn dweud wrthym fod staff yn eu helpu gyda'u prydau bwyd, nad ydynt yn cael eu rhuthro amser bwyd, bod prydau bwyd yn dda ac yn hawdd eu llyncu a'u bod yn hapus gyda'r cymorth y maent yn ei dderbyn gan y gweithwyr gofal. Arsylwyd amser bwyd, ac roedd y math o ddeiet a'r cymorth yr oedd ei angen gyda'r bwyd yr oedd y bobl yn ei dderbyn, yn adlewyrchu'n glir y cyfarwyddyd yng nghynlluniau personol unigolion a'r wybodaeth a ddarparwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol. Roedd yn amlwg o siarad â'r staff gofal eu bod yn ymwybodol o anghenion deietegol y bobl a pha gymorth sydd ei angen arnynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y gwasanaeth drefniadau rheoli effeithiol ar waith o ran rhedeg y gwasanaeth ac er mwyn monitro a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. Gwelsom fod set gynhwysfawr o archwiliadau ar waith sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd ac sy'n ymdrin â meysydd fel gwiriadau cegin, gofynion deietegol preswylwyr, gwiriadau pwysau ac archwiliad dibyniaeth, sy'n sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu bodloni anghenion unigolion. Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn unol â'r rheoliad ac yn ysgrifennu adroddiadau ar ei ganfyddiadau. Gwelsom hefyd fod y gwasanaeth yn cymryd barn y bobl o ddifrif a bod adolygiad sicrhau ansawdd yn cael ei gynnal yn rheolaidd. Mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â gofynion deietegol y bobl.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal hyfforddedig sy'n cael eu cyflogi gan y gwasanaeth. Mae cofnodion hyfforddiant yn dangos bod staff gofal yn meddu ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddiwallu anghenion y bobl ynghylch eu deiet. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal hyn. Gwelsom fod staff gofal wedi derbyn hyfforddiant ar faterion deietegol fel diabetes, hylifau a maeth a diogelwch bwyd. Mae'r darparwr hefyd wedi trefnu hyfforddiant penodol ar gyfer staff gofal ynghylch tagu ac adfywio cardio-pwlmonaidd. Mae hyfforddiant mewn perthynas ag anghenion deietegol hefyd wedi'i gynnal trwy'r tîm Therapi Lleferydd ac Iaith. Mae'r holl staff wedi cael llyfryn ar ddeietau arbenigol gan y tîm Therapi Lleferydd ac Iaith. Mae bwyd a hylifau hefyd yn rhan o'r hyfforddiant sefydlu staff gofal y mae'n rhaid i bob gweithiwr gofal ei ddilyn cyn cefnogi unigolion.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 10/08/2022'